

Canllaw i Gyfrifiad y Gweithlu Coedwigaeth, Prydain Fawr

Hydref 2026



**Cyfrifiad
Gweithlu
Coedwigaeth**

**Forestry
Workforce
Census**

Contents

1	Cyflwyniad	2
2	Llenwi'r holiadur.....	3
2.1	Rolau cyfrifiad y gweithlu coedwigaeth	5
2.2	Cyfatebol Llawn-Amser (CLIA).....	6
2.3	Unigolion sy'n berchen ar goetiroedd	8
2.4	Cyflogedig, dan gontract (gan gynnwys is-gontractwyr) neu arall? ..	8
2.5	Swm y gwaith coedwigaeth a gyflawnir gan eich mudiad	11
2.6	Tablau ategol yr holiadur.....	11
3	Diogelu data	13
4	Geirfa	15
4.1	Statws neu fath o gyflogaeth	15
4.2	Rolau a'u gweithgareddau enghreifftiol.....	16

1 Cyflwyniad

Diolch am gymryd amser i lenwi Cyfrifiad y Gweithlu Coedwigaeth. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllaw ychwanegol i gynorthwyo gyda llenwi'r holiadur (Adran 2), gwybodaeth am ddiogelu data (Adran 3) a geirfa (Adran 4).

Mae Forest Research yn cynnal y Cyfrifiad ar ran y Comisiwn Coedwigaeth, Scottish Forestry, a Llywodraeth Cymru. Bydd y Cyfrifiad yn canfod maint y gweithlu, a graddfa'r gweithrediadau coedwigaeth sydd yn digwydd, gan ddarparu tystiolaeth hanfodol i gefnogi dyfodol y sector.

Gofynnir i fudiadau ar hyd a lled y sector coedwigaeth ym Mhrydain Fawr gyflwyno gwybodaeth am eu gweithlu ar ddau ddyddiad ar wahân er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithrediadau coedwigaeth – **1 Hydref 2026** ac **1 Mawrth 2027**. Mae hyn oherwydd natur dymhorol y rolau, lle mae rhai mathau o waith ond yn digwydd ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Bydd y Cyfrifiad yn dal gwybodaeth am y bobl sy'n gweithio (yn gyflogedig, dan gontract neu arall) yn y swyddi canlynol o ran gweithrediadau coedwigaeth:

- cynllunio
- cynhyrchu coed/gwaith mewn planhigfeydd
- paratoi tir, plannu, sefydlu neu gynnal a chadw
- rheoli coetiroedd a/neu reoli pobl sy'n gweithio ar goetiroedd
- cynaeafu
- tynnu pren a gwaith cludo
- gwaith tirlfesur a chreu rhestrau eiddo.

Yr ydym yn mawr werthfawrogi eich ymateb, gan y bydd yn helpu i sicrhau bod Cyfrifiad y Gweithlu Coedwigaeth mor fanwl gywir ag sydd modd ac y bydd yn rhoi'r gwerth mwyaf i'r diwydiant ac i'ch mudiad neu sefydliad.

Bydd yr holl ddata a ddarperir yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol a chaiff ei gyd-grynhoi gyda data o sefydliadau eraill fel na fydd modd adnabod unrhyw fudiad unigol mewn unrhyw gyhoeddiad nac adroddiad arall. Gweler Adran 3 am fwy o wybodaeth am sut y caiff unrhyw ddata a gyflenwir gennych ei ddiogelu.

Cynhelir y Cyfrifiad bob pum mlynedd. Bydd y canlyniadau ar gael i'r cyhoedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Gyfrifiad y Gweithlu Coedwigaeth neu os ydych am gael cymorth i'w lenwi, e-bostiwch statistics@forestresearch.gov.uk neu ffoniwch ni ar 0300 067 5238.

2 Llenwi'r holiadur

Atebwch y cwestiynau gan ddefnyddio data sydd yn ymdrin â'ch mudiad neu sefydliad yn ei gyfanrwydd. Os nad yw hyn yn bosib, a fyddwch cystal hefyd â darparu gwybodaeth am adran neu ardal eich mudiad yng Nghwestiwn 1.

Pwy ddylai ei lenwi:

Cwmnïau gyda dim ond un unigolyn, fel unig fasnachwyr a mudiadau un-person, yr holl ffordd at sefydliadau mwy.

Pwy na ddylai ei lenwi:

Unigolion a gyflogir gan fudiad. Mae'r arolwg wedi ei anelu at gyflogwyr yn hytrach na gweithwyr. Dylai pobl sydd mewn safle

uwch i wneud penderfyniadau, fel Prif Weithredwyr neu gyfarwyddwyr AD lenwi'r arolwg ar ran gweithiwr.

Cofiwch ateb cynifer o gwestiynau ag y gallwch; byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad y gallwch ei roi. Rydym yn deall efallai na fedrwch ateb pob cwestiwn yn llawn.

Rolau cyfrifiad y gweithlu coedwigaeth

Gweler y tabl isod am yr holl rolau sy'n cael eu dal gan y Cyfrifiad. Gweler Adran 4.2 am enghreifftiau o weithgareddau y disgwyliwn i'r rolau hyn eu cyflawni fel arfer.

Planhigfa coedwig	
Technegydd neu reolwr cynydau	
Gweithiwr neu asiantaeth planhigfa	
Cynllunio	
Asiant, rheolwr, ymgynghorydd neu goedwigwr	
Syrffëwr	
Rheoli coedwigoedd	
Gweithiwr neu grefftwr coedwig	Tocio
	Sefydlu a chynnal a chadw
	Ffensio
	Plannu
Gweithiwr paratoi tir	
Rheolwr gwaith coedwig	
Goruchwyliwr	
Asiant, rheolwr, ymgynghorydd neu goedwigwr	
Rheolwr bywyd gwyllt, rheolwr pläon, neu drywyddwr	
Cynaeafu (gan gynnwys teneuo), tynnu a chludo	
Gweithiwr neu grefftwr coedwig	Triniwr llif gadwyn (cwymbo)
Rheolwr gwaith coedwig	
Goruchwyliwr	

Triniwr peiriannau	Cynaeafwr
	Cludwr ymlaen
	Arall
Gyrrwr wagen	
Arall	
Peiriannydd sifil	
Coedwigwr cymunedol	
Triniwr drôn	
Ecolegydd	
Technegydd GIS	
Ymgynghorydd ar amgylcheddau hanesyddol	
Swyddog coed i awdurdod lleol	
Trinwyr peirianwaith (peirianeg sifil)	

2.2 Cyfatebol Llawn-Amser (CLIA)

Mae'r holiadur yn gofyn am nifer y gweithwyr ar ddiwrnod y cyfrifiad fel rhai cyfatebol llawn-amser (CLIA). Mae CLIA fel arfer yn cael ei weithio allan ar sail wythnosol, fel yn yr enghraifft isod.

Defnyddiwch yr oriau llawn-amser y mae eich mudiad yn ddefnyddio (er enghraifft, 37 awr neu 42 awr yr wythnos) i weithio allan CLIA.

- Os yw gweithiwr yn **llawn-amser**, cyflwynwch fel 1 CLIA.
- Os yw gweithiwr yn **rhan-amser**, cyflwynwch eu CLIA fel y gyfran o oriau gwaith llawn-amser (gweler yr enghraifft isod).

Enghraifft:

40 awr yw'r oriau wythnosol llawn-amser mewn mudiad enghreifftiol. Yr oedd gan y mudiad 10 gweithiwr yn weithredol ar ddiwrnod y cyfrifiad, gydag wyth yn llawn-amser a dau yn rhan-amser.

- **8** gweithiwr **llawn-amser** = 8 CLIA
- **2** weithiwr **rhan-amser** (un yn gweithio 30 awr yr wythnos a'r llall yn gweithio 20 awr) = 0.75 CLIA + 0.5 CLIA = 1.25 CLIA

Cyfanswm CLIA y gweithwyr = 8 + 1.25 = 9.25 CLIA

Dylid rhoi'r cyfanswm CLIA (wythnos) yn yr holiadur am ddiwrnod y cyfrifiad. Mae'n cyfateb i'r cyfanswm dyddiol.

Os bydd gweithiwr yn rhannu ei amser rhwng gweithrediadau coedwigaeth a rhai nad ydynt yn goedwigaeth, cofnodwch gyfran yr amser sy'n cael ei dreulio ar weithrediadau coedwigaeth fel CLIA, lle mae modd amcangyfrif hyn yn rhesymol. Er enghraifft, dylai gweithiwr sy'n treulio 50% o'i amser gwaith ar weithrediadau coedwigaeth gael ei gofnodi fel **0.5 CLIA**.

Os na allwch roi union ffigyrau yn yr holiadur, yna byddwch cystal â rhoi eich amcangyfrifon gorau o CLIA neu nifer y gweithwyr a'u marcio gydag 'A'.

2.3 Unigolion sy'n berchen ar goetir

Os ydych yn berchen ar goetir yn bersonol (yn hytrach na thrwy gwmni neu fudiad arall) a'ch bod yn ei reoli neu ei gynnal eich hun, cofiwch, cofiwch gynnwys eich hun ac unrhyw aelodau o'r teulu sy'n rhoi cefnogaeth ddi-dâl dan '**Arall**' yn Adran 2 yr holiadur.

CLIA cyflogedig	CLIA dan gontract	CLIA arall	Cyfanswm CLIA

Os yw gweithwyr eraill (ac eithrio eich hun ac aelodau'ch teulu) yn helpu i reoli neu gynnal y coetir, cyfeiriwch at Adran 2.4 am gyfarwyddyd ar sut i'w cynnwys.

2.4 Cyflogedig, dan gontract (gan gynnwys is-gontractwyr) neu arall?

Mae'r siartiau llif isod yn rhoi canllaw chi ar sut i lenwi Adran 2 yr holiadur, lle gofynnir am nifer y CLIA yn ôl math o gyflogaeth (cyflogedig, dan gontract, neu arall). Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi eu strwythuro fel y tabl isod:

CLIA cyflogedig	CLIA dan gontract	CLIA arall	Cyfanswm CLIA


Dylai 'dan gontract' gynnwys is-gontractwyr a gweithwyr asiantaeth. Gweler adran 4.1 am ddiffiniadau o fathau o gyflogaeth.

Ar gyfer unrhyw weithwyr eraill, defnyddiwch 'Arall'. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr di-dâl, gwirfoddolwyr ac unrhyw weithwyr eraill nad oedd yn gyflogedig, dan gontract neu is-gontract. Os oes arnoch angen


mwyr o gyfarwyddyd, cysylltwch â ni ar statistics@forestresearch.gov.uk neu ffoniwch 0300 067 5238.

Os ydych wedi darparu'r CLIA yn ôl cyflogedig, dan contract ac arall, lle bo hynny'n gymwys, 'does dim rhaid i chi gwblhau'r golofn 'cyfanswm CLIA'.

Siart A



Siart B



2.5 Swm y gwaith coedwigaeth a gyflawnir gan eich mudiad

Mae gan Adran 3 yr holiadur gwestiwn am swm y gwaith coedwigaeth a gyflawnir gan eich mudiad.

Mae'r cwestiynau hyn wedi eu cynnwys gan y byddant yn ein helpu i amcangyfrif maint y gweithlu fydd ei angen i gwrdd â thargedau creu coetiroedd, ynghyd â'ch atebion i gwestiynau Adran 2. Yr ydym yn deall y gallant fod yn anodd i'w hateb ac y bydd y data a ddarparwch yn sensitif. Os na allwch roi union ffigyrau yn yr holiadur, yna a fyddwch cystal â rhoi eich amcangyfrifon gorau a'u marcio gydag 'A'.

Caiff yr holl ddata a ddarperir ei drin yn hollol gyfrinachol a chaiff ei gyd-grynhoi gyda data o fudiadau eraill fel na fydd modd adnabod mudiad neu sefydliad unigol mewn unrhyw gyhoeddiad neu adroddiad arall. Gweler Adran 3 am fwy o wybodaeth am y ffordd y bydd unrhyw ddata a gyflenwch yn cael ei storio'n ddiogel.

Enghraifft

Cynhyrchodd eich mudiad X tunnell o goed, y cludwyd cyfanswm o Y tunnell yn y flwyddyn ddiwethaf neu flwyddyn nodweddiadol o weithredu o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Rhowch Y tunnell yng Nghwestiwn 10, waeth faint o unigolion a wnaeth hyn neu eu statws gwaith.

<u>Gweithgaredd</u>	<u>Swm blynyddol</u>	
<u>Cludo</u>	Y	<u>Tunelli</u>

2.6 Tablau ategol yr holiadur

Mae'r tablau hyn wedi eu cynnwys i gefnogi casglu data'r holiadur yn eich mudiad. Fe'u bwriadwyd i'w defnyddio pan fydd arnoch angen casglu data

o wahanol rannau o'ch sefydliad cyn darparu ymateb wedi ei gyd-grynhoi gan eich sefydliad. Mae'r taflenni wedi eu gosod fel bod modd eu printio a'u llenwi i mewn, os bydd angen.

3 Diogelu data

Fe wnawn gadw eich gwybodaeth yn ddiogel a chyfrinachol, a byddwn yn cadw at egwyddorion GDPR y DU.

Mae hyn yn golygu y gwnawn y canlynol:

- cydnabod eich bod yn rhannu gwybodaeth bersonol gyda ni, a'i drin yn gyfrinachol, yn ôl cyfarwyddyd y [Cod Ymarfer am Ystadegau](#)
- defnyddio eich gwybodaeth yn unig at ddibenion ystadegol, neu i'n helpu i redeg ein harolygon, ac ni wnawn gyhoeddi dim sy'n peri adnabod unigolyn, aelwyd neu fusnes
- dal eich gwybodaeth yn unig cyhyd ag y mae'n cael ei ddefnyddio er mwyn cynhyrchu ystadegau
- gofalu bod ein staff yn ymwybodol o'u hobblygiadau i ddiogelu eich gwybodaeth gyfrinachol
- cynnal diogelwch ein systemau a'n hadeiladau

Pwy all gyrchu'r wybodaeth?

Forest Research, Y Comisiwn Coedwigaeth, Scottish Forestry a Llywodraeth Cymru.

Bydd data wedi ei wneud yn ddienw hefyd yn cael ei rannu gyda BioSS (James Hutton Ltd) sef ein cyflenwr trydydd parti dan gontract at ddibenion dadansoddi.

Bydd canlyniadau a gyd-grynhowyd o'r cyfrifiad, lle na fydd modd adnabod sefydliadau na mudiadau unigol, yn cael eu cyhoeddi gan Forest Research.

Lle galla'i ganfod mwy am y modd y caiff fy ngwybodaeth ei drin?

Os oes gennych gwestiwn am y modd yr ydym yn prosesu eich data personol neu sefydliadol ac eisiau gwybod mwy am eich hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data, cysylltwch â Thîm Ystadegau Forest Research ar statistics@forestresearch.gov.uk.

4 Geirfa

4.1 Statws neu fath o gyflogaeth

Statws neu fath o gyflogaeth	Diffiniad
Cyflogedig	Yr holl weithwyr yn cael eu talu'n uniongyrchol o gyflogres(i) eich sefydliad.
Contractwr neu is-gontractwr	Unigolion neu fusnesau dan gontract i ddarparu gwasanaethau sy'n gyfrifol am reoli eu trethi a'u hyswariant eu hunain. Is-gontractwr yw contractwr a gyflogwyd i weithio ar gontract y llogwyd eich sefydliad i'w gyflwyno.
Gweithiwr asiantaeth	Gweithwyr a gyflenwyd gan asiantaeth gyflogi ac a delir trwy gyflogres yr asiantaeth gyda'r asiantaeth yn gyfrifol am reoli trethi ac arian arall a dynnir o'r gyflogres.
Gwirfoddolwr	Unigolion sy'n darparu eu gwasanaethau yn wirfoddol, heb gael eu talu.
Hyfforddai neu brentis	Unigolion sy'n derbyn hyfforddiant am swydd a/neu yn gweithio dan oruchwyliath gweithiwr medrus.
Rhan-amser	Gweithwyr sy'n gweithio llai o oriau na gweithiwr llawn-amser, fel arfer dan 30 awr yr wythnos.

4.2 Rolau a'u gweithgareddau enghreifftiol

Nodwch nad yw'r rhestr o weithgareddau enghreifftiol am bob rôl yn cynnwys popeth.

Rôl		Gweithgareddau enghreifftiol
Planhigfa coedwig		
Technegydd neu reolwr cnydau		Monitro cnydau, cynllunio triniaethau, a gweithgareddau technegol eraill
Gweithiwr neu asiantaeth planhigfa		Chwynnu, hau, chwistrellu, codi, graddio
Cynllunio		
Asiant, rheolwr, ymgynghorydd neu goedwigwr		Ysgrifennu cynlluniau creu neu reoli coetiroedd
Syrffêwr		Arolygon ecolegol, cynefinoedd neu briddoedd
Rheoli coedwigoedd		
Gweithiwr neu grefftwr coedwig	Tocio	Torri mewn systemau tocio
	Sefydlu a chynnal a chadw	Chwynnu, curo, torri a chlirio tyfiant, chwistrellu, tocio, ail-leoli
	Ffensio	Codi ffensys

Rôl		Gweithgareddau enghreifftiol
	Plannu	Plannu coed
Gweithiwr paratoi tir		Aredig, creu twmpathau
Rheolwr gwaith coedwigoedd		Trosolwg o weithrediadau
Goruchwyliwr		Goruchwylio gweithrediadau
Asiant, rheolwr, ymgynghorydd neu goedwigwr		Cydgordio gweithrediadau
Rheolwr bywyd gwyllt, rheolwr pläon, neu drywyddwr		Rheoli mamaliaid sy'n bla
Cynaeafu (gan gynnwys teneuo), gwaith tynnu a chludo		
Gweithiwr neu grefftwr coedwig	Triniwr llif gadwyn (cwympo)	Cwympo coed unigol
Rheolwr gwaith coedwigoedd		Trosolwg o weithrediadau
Goruchwyliwr		Goruchwylio gweithrediadau
	Cynaeafwr	Rhedeg peiriannau cynaeafu mewn gweithrediadau cynaeafu
	Cludwr ymlaen	Rhedeg peiriannau cludo ymlaen mewn gweithrediadau cynaeafu

Rôl		Gweithgareddau enghreifftiol
	Arall	Rhedeg peiriannau codi o lethrau serth, winsio, malu coed neu beiriannau creu tomwellt
Gyrrwr wagen		Gyrru wagenni/cerbydau nwyddau trwm
Arall		
Peiriannydd sifil		Dylunio seilwaith mewn amgylchedd coedwigaeth
Coedwigwr cymunedol		Gweithio gydag aelodau o'r gymuned i blannu coed a gwneud gwaith cynnal a chadw ar goed
Triniwr drôn		Iechyd planhigion ac archwiliadau eraill
Ecolegydd		Arolygon o rywogaethau gwarchodedig
Technegydd GIS		Mapio
Ymgynghorydd ar amgylcheddau hanesyddol		Arolygon archeolegol
Swyddog coed i awdurdod lleol		Cynlluniau rheoli coetiroedd
Trinwyr peirianwaith (peirianeg sifil)		Adeiladau ffyrdd, pontydd a mathau eraill o seilwaith mewn amgylchedd coedwigaeth